# Splice Cast Ltd

Mae Splice Cast Ltd yn ddylunydd pwysig sy'n gwneud chwistrellwyr ar gyfer rhoi plastig mewn mowld a chyda'r help y mae wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, mae wedi gallu ehangu ei gynhyrchion a datblygu o fewn marchnadoedd newydd.

Mae Splice Cast Ltd o Bowys yn dylunio ac yn gweithgynhyrchu chwistrellwyr sy'n rhoi plastig mewn mowld a hynny'n bennaf ar gyfer y diwydiant dyfeisiau meddygol. Mae'n cynnig gwasanaeth cyflawn i'w gwsmeriaid, popeth o ddatblygu'r cynnyrch, ei weithgynhyrchu i ansawdd uchel a'i gynhyrchu hefyd.

Sefydlwyd y cwmni yn 2000 ac mae'n cyfuno 28 blynedd o brofiad a mewnwelediad i gynhyrchu chwistrellwyr cywrain ar gyfer rhoi plastig mewn mowld a pheiriannau chwistrellu modern a dibynadwy yn ei ffatri yn y Drenewydd. Yn sgil y twf diweddar, gwelwyd bod cyfle i gynyddu'r cynhyrchion sydd ganddo a chael mynediad i gyfran fwy o'r farchnad yn y diwydiant nwyddau meddygol.

Yn dilyn ymchwil helaeth i'r farchnad, mae'r cwmni wedi llwyddo i ddatblygu cyfres o sbecwla hyblyg ac unigryw sy'n cael eu defnyddio mewn archwiliadau meddygol gan gynnwys sgrinio am ganser ceg y groth.

Cafodd y cwmni help gan Raglen Arloesi Busnes



Llywodraeth Cymru ar gyfer y datblygiad hwn ac mae hyn wedi'i alluogi i ehangu a chyflwyno llinell gynhyrchu gyflawn trwy ei helpu i gysylltu â'r diwydiant, cyngor ynghylch Eiddo Deallusol a help i farchnata'r cynhyrchion. O ganlyniad, mae sawl cwmni meddygol rhyngwladol wedi dangos diddordeb yn y cwmni trwy gynnig ei gyfres gofrestredig ei hun o ddyfeisiau meddygol o dan yr enw Ultraspec®.

Dywedodd Duncan Morren, Rheolwr Gyfarwyddwr Splice Cast Ltd: "Gall ymchwil a datblygu llwyddiannus dalu ar ei ganfed ac yn yr achos hwn, roedd yn rhannol bosibl gyda'r arian a gawsom gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'n helpu i gyflwyno ein cynhyrchion i'r farchnad yn gynt. Mae'r ffaith ein bod bellach yn gwneud mwy o gynhyrchion wedi agor mwy o ddrysau i ni ac rydym eisoes yn gweld budd. Ers 2010, mae maint y cwmni wedi dyblu ac rydym yn gobeithio y gallwn barhau i ehangu'r busnes gyda'r gyfres newydd hon o gynhyrchion."

Busnes Cymru | Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG29902 / © Hawlfraint y Goron 2016